

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

ADRODDIAD CYFREITHIWR

PWNC: DYLETSWYDDAU'R AELODAU WRTH BENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o rôl y Pwyllgor hwn o fewn y system gynllunio.
2. Cod statudol yw'r system gynllunio sy'n rheoli hawliau tirlfeddianwyr ac eraill sydd â buddiant mewn tir, er mwyn sicrhau bod datblygu a defnyddio tir yn adlewyrchu budd y cyhoedd. Rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'i ddarpariaethau.
3. Mynegir budd y cyhoedd drwy gyfrwng y cynllun datblygu. Ar hyn o bryd, y cynllun ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod hwn ym mis Medi 2010. Yn ôl y gyfraith rhaid i benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.
4. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol:
 - (a) Polisi cynllunio cenedlaethol, sydd wedi'i bennu ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol sy'n cyd-fynd â hwy.
 - (b) Ystyriaethau sy'n ymwneud â hanes cynllunio safle, priffyrdd, cadwraeth natur, sŵn, colli preifatrwydd, llunwedd, dyluniad a golwg datblygiad arfaethedig, ac unrhyw effaith a gaiff datblygu ar adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth.
 - (c) Yr angen am warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, a rhoi cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
5. Rhaid diystyru ystyriaethau amherthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Er enghraifft, nid yw pethau fel colli golygfa neu fod datblygiad yn cael effaith negyddol ar werth eiddo yn ystyriaethau perthnasol. Anaml iawn y mae amgylchiadau personol yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio.
6. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi ymgorffori'r hawliau yng Nghonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol yn ein cyfraith ddomestig. Ar yr amod bod yr aelodau yn cymhwyso'r cod statudol yn gyfreithlon ac mewn modd teg a diduedd, byddant wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o dan y Deddfau Cynllunio a byddant, felly, wedi gweithredu yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998.
7. Hefyd, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Arferion Da i Aelodau ym maes cynllunio. Mae hwn yn esbonio ac yn ategu Cod Ymddygiad yr Aelodau yng nghyd-destun y system gynllunio. Mae'n bwysig bod yr Aelodau yn cymhwyso'r canllawiau yn y Cod Arferion Da hwn wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol.